



Teitl: Title:	Polisi Myfyrwyr sy'n Ailymuno
Fersiwn: Version	V3
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr a Staff Students/Staff

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	Asesiad o'r Effaith ar Bolisi Myfyrwyr sy'n Ailymuno
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</i>

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	Dirprwy Brif Weithredwr Profiadau Pobl a Diwylliant Deputy Chief Executive People Experiences & Culture		
Ymgynghoriad/ Consultation:	Cydweithwyr SMT, Cynrychiolwyr Partneriaeth Gymdeithasol, Cydweithwyr Cwricwlwm, Anogwyr Cynnydd, Gwasanaethau Myfyrwyr a Gwasanaethau Gweinyddu.		
Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	<i>Grŵp Cyfathrebu a Diwylliant</i>	
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	<i>24/4/24</i>	
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	<i>Amherthnasol</i>
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	<i>13/5/24</i>
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	<i>Amherthnasol</i>
Corff Llywodraethu / Governing Body:	<i>17/6/2024</i>		
Dyddiad Adolygu: Review Date:	31 Awst 2027		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Polisi Myfyrwyr sy'n Ailymuno

1. Diben	3
2. Cwmpas	3
3. Gweithdrefn	3
4. Apeliadau	4
5. Y Gymraeg	5
Atodiad Un - Enghraifft o Lythyr Cytundeb	6
Atodiad Dau - Cytundeb Myfyriwr	7

1. Diben

1.1 Diben y polisi hwn yw darparu fframwaith cymorth i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd ymgysylltu'n llwyddiannus ag astudio yn y Coleg ar ôl tynnu'n ôl o'r blaen neu wedi cael anawsterau blaenorol gyda phresenoldeb, prydlondeb, agwedd at ddysgu neu faterion disgyblu eraill, megis rhybuddion, ataliad neu waharddiadau cyfnod penodol. Gall hyn hefyd gynnwys myfyrwyr sydd wedi methu arholiadau blaenorol neu sydd ag amgylchiadau eithriadol eraill. Mae cytuno i gyfnod prawf hyd at chwe wythnos addysgu yn amod cofrestru yn y coleg ar gyfer myfyrwyr o'r fath. Yn ystod y cyfnod prawf, bydd y myfyriwr yn cael cefnogaeth dda gyda gosod targedau clir a chynllunio gweithredu ar waith i hwyluso cwblhau'r cyfnod prawf yn llwyddiannus.

2. Cwmpas

2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob myfyriwr sydd wedi'u cofrestru yng Ngholeg Cambria, gan gynnwys myfyrwyr addysg bellach ac addysg uwch, prentisiaid, myfyrwyr dysgu yn y gwaith a myfyrwyr sy'n oedolion yn y gymuned.

3. Gweithdrefn

3.1 Bydd myfyrwyr yn cofrestru gan ddilyn y gweithdrefnau arferol, ar yr amod y byddant ar gyfnod prawf os ydynt yn dod oddi mewn i'r categorïau a restrir uchod yn Adran 1.

3.2 Bydd Dirprwy Gyfarwyddwyr yn dynodi'r myfyrwyr hyn o'r cofrestriadau ac yn cyfarfod â nhw, cyn dechrau yn y coleg, i gytuno ar gynllun gweithredu a fydd yn cael ei lofnodi a'i anfon yn ôl at y Dirprwy Gyfarwyddwr. Bydd copi hefyd yn cael ei ddarparu i rieni/gwarcheidwaid os yw'r myfyriwr o dan 18 oed neu'n cael ei nodi fel oedolyn sy'n agored i niwed. Cofnodir hyn ar y cofnod bugeiliol ar system cofnodion myfyrwyr.

3.3 Bydd y cyfnod prawf yn cael ei adolygu cyn diwedd y 6 wythnos addysgu gan y Cyfarwyddwr Cwricwlwm a'r Anogwr Cynnydd/Tiwtor Personol a byddant yn penderfynu naill ai i ddod â'r cyfnod prawf i ben o ganlyniad i'w gwblhau'n foddhaol neu i dynnu'r myfyriwr yn ôl. Bydd y penderfyniad yn seiliedig ar bresenoldeb, agwedd a chyflwyniad gwaith y myfyriwr yn ystod y cyfnod prawf.

3.4 Bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei gadarnhau yn Ysgrifenedig gan y Cyfarwyddwr Cwricwlwm gyda chopi i rieni/gofalwyr os yw'r myfyriwr o dan 18 oed neu'n oedolyn sy'n agored i niwed.

Mae hyn yn amodol ar ganiatâd o dan ddeddfwriaeth GDPR. Os yw'r myfyriwr yn brentis neu'n ddysgwyr yn y gwaith, bydd ei gyflogwr yn cael copi o'r llythyr hefyd.

3.5 Gallai'r myfyriwr apelio yn erbyn penderfyniad i'w tynnu'n ôl o'r cwrs a/neu'r Coleg ar sail presenoldeb/agwedd/cyflwyno gwaith gwael. Rhaid i gais o'r fath fod yn seiliedig ar:

- i. na ddilynwyd y gweithdrefnau'n gywir;
- ii. a/neu fod tystiolaeth newydd arwyddocaol nad oedd ar gael ar adeg y cafodd y penderfyniad gwreiddiol ei wneud.

4. Apeliadau

4.1 Pan ddywedir wrth fyfyrwr ei fod yn cael ei dynnu'n ôl o gwrs a/neu'r Coleg, mae'n rhaid iddynt nodi'r sail dros apelio yn ysgrifenedig at y Pennaeth Cynorthwyol perthnasol (neu Is-bennaeth), cyn pen pum diwrnod gwaith yn ystod y tymor ar ôl cael yr hysbysiad hwnnw. Os na chyflwynir apêl o fewn pum diwrnod gwaith yn ystod y tymor, bydd ffurflen Hysbysiad o Newid yn cael ei chwblhau i gadarnhau tynnu'n ôl o'r Coleg.

4.2. Bydd yr apêl yn cael ei chlywed gan banel apêl sy'n cynnwys yr Is-Bennaeth a'r Pennaeth Cynorthwyol y maes cwricwlwm. Fel rheol, bydd gwrandawriad apêl yn cael ei alw gan y Pennaeth Cynorthwyol o fewn pum diwrnod gwaith yn ystod y tymor i gael yr hysbysiad o apêl.

4.3 Dylid anfon llythyr yn gwahodd y myfyriwr i'r panel apêl trwy'r post dosbarth cyntaf (a thrwy e-bost lle mae cyfeiriadau e-bost yn cael eu cadw) at y myfyriwr ac at rieni / gofalwyr myfyrwyr dan 18 oed a / neu'r rhai a nodwyd fel oedolion sy'n agored i niwed. Mae hyn yn amodol ar ganiatâd o dan ddeddfwriaeth GDPR. Os yw'r myfyriwr yn brentis, bydd ei gyflogwr yn cael copi o'r llythyr hefyd. Bydd y llythyr yn nodi amser, dyddiad a lleoliad y cyfarfod y mae'r apêl i'w hystyried ynddo, gan roi rhybudd o ddim llai na phum diwrnod yn ystod y tymor i'r Coleg ac amgáu copi o'r polisi hwn.

4.4 Gall y myfyriwr ddod â rhiant/gofalwr, neu ffrind gyda nhw i'r panel apêl. Os yw'r myfyriwr yn brentis, gall y cyflogwr ddod hefyd.

4.5 Fel arfer, cynhelir yr achos fel a ganlyn, er y bydd gan y panel yr hawl i amrywio'r drefn mewn amgylchiadau priodol:

- i. Bydd y myfyriwr yn cael y cyfle i gyflwyno'r rhesymau i gefnogi'r apêl.
- ii. cyflwyno tystiolaeth gan y Cyfarwyddwr Cwricwlwm priodol yn cefnogi'r penderfyniad i dynnu'r myfyriwr yn ôl.

iii. gallai'r panel holi cwestiynau i unrhyw un sy'n ymddangos ger ei bron ar unrhyw adeg o'r achos;



iv. bydd y panel yn ystyried y dystiolaeth ac yn dod i ganlyniad;

4.6 Bydd Cadeirydd y Panel yn ysgrifennu at y myfyriwr cyn pen pum diwrnod gwaith yn ystod y tymor ar ôl i'r Panel gadarnhau'r penderfyniad a wnaed. Bydd penderfyniad y Panel Apêl yn derfynol.

4.7 Os bydd myfyriwr yn methu â hysbysu'r Coleg nad yw'n mynd i banel apelio, bydd yn digwydd yn ei absenoldeb. Os na all myfyriwr fynychu'r panel apêl am resymau y tu hwnt i'w reolaeth, bydd y panel yn cael ei ohirio i ddiwrnod arall (fel arfer o fewn 5 diwrnod yn ystod y tymor gwaith i'r dyddiad gwreiddiol). Bydd y Coleg yn cadarnhau'n ysgrifenedig drefniadau'r panel wedi'i aildrefnu. Oni bai bod amgylchiadau arbennig yn lliniaru yn ei erbyn, os na all myfyriwr fynd i'r panel a aildrefnwyd, cynhelir y gwrandawriad apêl aildrefnu yn ei absenoldeb.

5. Y Gymraeg

5.1 Yn unol â Safonau'r Gymraeg, bydd holl gyfarfodydd, gohebiaeth a gwasanaethau cymorth sy'n rhan o'r prosesau hyn yn cael eu cynnig yn Gymraeg.

DIWEDD

Atodiad Un - Llythyr Cytundeb (y gellir ei deilwra fel y bo'n briodol)

Annwyl

Yng Ngholeg Cambria, rydym yn deall y gall dychwelyd i addysg ar ôl wynebu heriau fod yn anodd. Dyna pam mae gennym bolisi cefnogol ar waith ar gyfer myfyrwyr sy'n ail-gofrestru ar ôl tynnu'n ôl yn flaenorol neu wynebu materion fel absenoldeb, agwedd at ddysgu, neu faterion disgyblu.

Fel rhan o'r gefnogaeth hon, rydym yn cynnig cyfnod prawf o chwe wythnos o ddechrau'r flwyddyn academiaidd. Mae'r cyfnod hwn yn caniatáu i ni weithio gyda chi i sicrhau eich llwyddiant. Bydd eich presenoldeb, agwedd, a chyflwyniad gwaith yn cael eu hadolygu yn ystod y cyfnod hwn. Ein nod yw darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i'ch helpu i lwyddo.

Ar ddiwedd y cyfnod prawf, byddwn yn asesu eich cynnydd ac yn trafod unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol. P'un a yw'n cwblhau'r cyfnod prawf yn llwyddiannus neu'n mynd i'r afael ag unrhyw heriau, rydym yma i'ch cefnogi bob cam o'r ffordd. Byddwch yn cael gohebiaeth am y canlyniad trwy lythyr.

A fyddech gystal â darllen y cytundeb sydd wedi'i atodi yn ofalus iawn a'i arwyddo, ei ddyddio a'i dychwelyd ataf i.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu angen cefnogaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Atodiad Dau

CYTUNDEB MYFYRIWR

Yr wyf i, yn derbyn fy mod i wedi cael fy rhoi ar brawf am chwe wythnos. Yr wyf yn cytuno i gydymffurfio â'r canlynol er mwyn parhau i fod yn fyfyrwr yng Ngholeg Cambria.

Byddaf:

1. Yn mynd i bob gwrs a sesiynau tiwtor personol (ac eithrio am resymau meddygol neu resymau dilys eraill, gan ddarparu tystiolaeth ar eu cyfer). Mae hyn hefyd yn cynnwys tiwtorialau a sesiynau cymorth sydd yn rhan o'r rhaglen ddysgu.
2. Yn brydlon ar gyfer pob gwrs a sesiynau tiwtor personol.
3. Yn cwblhau pob aseiniad ar amser ac ar lefel briodol.
4. Yn cydymffurfio gyda Chod Ymddygiad Myfyrwyr -

Bydd methu â chydymffurfio yn arwain at gael eich tynnu oddi ar y cwrs astudio a/neu o'r Coleg.

Enw'r Myfyrwr: _____ Arwyddwyd:

Dyddiad: _____

Enw'r Cyfarwyddwr Cwricwlwm: _____ Arwyddwyd:

Dyddiad: _____